

Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â gosod system monitro amlygiad gan ddefnyddio offer amlygu a rheolyddion camera. Fe allai hyn fod yn berthnasol i unrhyw fath o gynhyrchiad gan gynnwys ffilmiau nodwedd, dramâu Teledu, hysbysebion, rhaglenni dogfen, rhaglenni chwaraeon, darllediadau tu allan a digwyddiadau byw neu ar lwyfannau. Fe allai hyn fod yn berthnasol i saethiadau aml-gamera neu gamera unigol.

Mae'n ymwneud â gosod ffenestri camerâu, gwirio'r offer amlygu, gosod ac addasu monitorau a ffenestri camerâu a chloi neu farcio rheolyddion.

Mae'r safon ar gyfer unrhyw aelod o'r criw camera sy'n gosod system monitro amlygiad.

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

1. gosod ffenestri'r camerâu er mwyn cyflawni'r amlygiad gofynnol
2. gwirio bod gwybodaeth yr offer amlygu'n dangos y lefelau priodol
3. gosod monitorau a ffenestri camerâu i gynnig yr amodau gwyllo gorau posibl
4. gwirio signalau ac addasu monitorau i gyflawni'r gosodiad monitor cywir
5. cloi neu farcio rheolyddion monitro yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwyr

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

1. sut i osod ffenestri camerâu
2. sut mae gwahanol offer amlygu'n pennu lefelau amlygu gan gynnwys sebras, histogramau a lliwiau ffug
3. goblygiadau ymarferol gwahanol lefelau gosodiadau offer amlygu
4. sut i ddehongli gwybodaeth am offer amlygu yn ymwneud â gama a 'knee'
5. y meini prawf ar gyfer dewis y safleoedd gorau posibl ar gyfer monitorau a'r cyfarpar gwirio
6. y cyfarpar gwirio signalau er mwyn cyflawni'r gosodiad monitor cywir
7. sut i wirio bod rheolyddion yn ddiogel
8. sut i farcio rheolyddion pan nad oes modd eu diogelu

Gosod system monitro amlygiad

Datblygwyd gan	ScreenSkills
Dyddiad cymeradwyo	30 Maw 2020
Dyddiad Adolygu Dangosol	31 Maw 2024
Dilysrwydd	Ar hyn o bryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	ScreenSkills
RCU gwreiddiol	SKSC20
Galwedigaethau perthnasol	Y Cyfryngau a Chyhoeddi, Y Celfyddydau, Y Cyfryngau a chyfathrebu, Gweithwyr Proffesiynol Cysylltiedig â'r Cyfryngau
Cyfres/Set	Camera
Geiriau Allweddol	camera; amlygiad camerâu; generadur signalau; amlygiad; ffocws; amledd y glicied caead; monitro cyfarpar; hidlwyr camerâu; ffenestri camerâu